Partneriaeth Ranbarthol Gorllewin Morgannwg | West Glamorgan Regional Partnership

# STRATEGAETH RHANBARTHOL GOFALWYR

## GORLLEWIN MORGANNWG

Os oes angen y ddogfen hon arnoch mewn fformat arall, cysylltwch â Swyddfa Rhaglen Gorllewin Morgannwg drwy e-bostio west.glamorgan@abertawe.gov.uk

# Rhagarweiniad




Mae rôl bwysig gofalwyr di-dâl yn ein cymdeithas yn cael ei chydnabod gan Lywodraeth Cymru yn y ddogfen 'Cymru Iachach: Ein Cynllun Iechyd a Gofal Cymdeithasol'. Heb y rôl hanfodol y maent yn ei chwarae, ni fyddai system gynaliadwy o iechyd a gofal cymdeithasol. Dyna pam y mae Cymru'n parhau i fod yn ymrwymedig i gefnogi gofalwyr di-dâl a buddsoddi ynddynt fel rhan annatod o'r gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol. Adlewyrchir yr ymrwymiad hwn yn 'Ffyniant i Bawb' – y strategaeth genedlaethol ar gyfer symud Cymru ymlaen – sy'n cwmpasu darpariaeth ddysgu a mynediad at wybodaeth a chymorth i ofalwyr.

Nododd yr Adolygiad Seneddol o Iechyd a Gofal Cymdeithasol mai 'gofalwyr' oedd un o'r meysydd blaenoriaeth ar gyfer trawsnewid iechyd a gofal cymdeithasol. Mae'n galw am fwy o ymdrech ar draws y sectorau iechyd a gofal cymdeithasol i gynllunio ar gyfer modelau gofal a chymorth newydd i ofalwyr yn barhaus.

Mae newid y ffordd rydym yn cefnogi gofalwyr yn rhan o'r daith ddiwylliannol rydym yn ymgymryd â hi yng Nghymru o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015' i greu cenedl iachach a mwy cydnerth. Mae rhoi'r cymorth a'r gefnogaeth y mae eu hangen ar ofalwyr yn un cam allweddol yn y daith hon. Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) [Y Ddeddf] 2014 yn nodi sut y dylid cefnogi gofalwyr. Mae rhai rhannau o'r Ddeddf yn ffurfio'r sylfaen gyfreithiol o ddiwallu anghenion gofalwyr:

- Mae Rhan 1 o'r Ddeddf yn diffinio beth yw "gofalwr";
- Mae Rhan 2 yn pennu dyletswyddau trosgynnol, canlyniadau llesiant a swyddogaethau lleol;
- Mae Rhan 3 yn nodi sut i asesu anghenion;
- Mae Rhan 4 yn cadarnhau sut i ddiwallu anghenion.

Gellir dehongli'r Ddeddf, fel gyda phob deddfwriaeth, mewn gwahanol ffyrdd ac felly gall profiadau gofalwyr fod yn wahanol i le i le.

Mae'r ddogfen hon yn darparu ffocws strategol ar gyfer gweithio gyda gofalwyr i sicrhau gwell canlyniadau a gwell cefnogaeth i'r rôl bwysig y maent yn ei chwarae yn ein cymunedau yn Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot.

# Rhagair



Fel Cadeirydd Bwrdd Partneriaeth Gofalwyr Rhanbarthol Gorllewin Morgannwg, rwy'n falch iawn o gyflwyno'r Strategaeth Gofalwyr pum mlynedd hon ar ran Partneriaeth Ranbarthol Gorllewin Morgannwg. Nid yw gofalwyr di-dâl yn cael eu cydnabod na'u gwerthfawrogi'n ddigonol yn ein cymdeithas. Ein gobaith yw y bydd y strategaeth hon yn cymryd cam ymlaen i fynd i'r afael â hyn.

Mae'n bwysig cydnabod a diolch o galon i'n Cynrychiolwyr Gofalwyr sydd wedi gwneud cyfraniad sylweddol i'r gwaith hwn. Mae eu hamser, eu sylw a'u brwdfrydedd yn wirioneddol ysbrydoledig, er gwaethaf eu bywydau sydd eisoes yn brysur. Mae Gwasanaethau Gofalwyr y Trydydd Sector sy'n ymwneud â'r gwaith hwn wedi bod yn allweddol wrth gynrychioli lleisiau gofalwyr ac maent wedi gwneud cyfraniadau amhrisiadwy i'n helpu i ddeall profiadau gofalwyr a'r heriau y maent yn eu hwynebu wrth gael pen ffordd yn y byd hwn ar ôl y feirws. Er gwaethaf pwysau cynyddol ar ein gwasanaethau cyhoeddus, mae ein partneriaid statudol o Fwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe [BIPBA], Cyngor Abertawe a Chyngor Castell-nedd Port Talbot wedi parhau i gyfranogi ac maent wedi bod yn ymrwymedig i ddatblygu'r strategaeth hon yn ogystal â'r camau a fydd yn cael eu llywio gan ein hymrwymiad rhanbarthol.

Mae'r strategaeth hon yn cynrychioli'r dyfodol, ac rydym yn ymwybodol iawn na fydd ein huchelgais yn cael ei wireddu'n llawn o fewn pum mlynedd. Mae'r ddogfen hon yn esiampl i ni ei dilyn ar y daith i gyflawni ein nodau. Bydd angen i ni ailedrych ar y strategaeth hon a'i diwygio ar adegau ar hyd y daith er mwyn bodloni gofynion y byd hwn sy'n newid yn gyflym. Serch hynny, mae'r ddogfen hon yn nodi ymrwymiad strategol rhanbarth Gorllewin Morgannwg i ofalwyr di-dâl a'i ymrwymiad i gydweithio i gyflawni'r nodau hyn hyd eithaf ei allu.

**Gaynor Richards,**
**Cadeirydd Bwrdd Partneriaeth Gofalwyr Gorllewin Morgannwg.**

# Defnyddio'r ddogfen hon

Diben y ddogfen hon yw amlinellu'r hyn a wyddom am Ofalwyr a'u hanghenion, ac amlinellu sut rydym yn bwriadu diwallu'r anghenion hynny. Mae'r gynulleidfa bwriadedig ar gyfer y ddogfen hon yn amrywiol ac mae adrannau a fydd yn fwy perthnasol i rai pobl yn fwy nag eraill.

Er enghraifft, efallai y bydd Gofalwyr am roi mwy o sylw i adran 1, sy'n esbonio'n cenhadaeth, ein gweledigaeth a'n gwerthoedd cyffredin, neu adran 2, sy'n amlinellu'r hyn a wyddom am ofalwyr a pha ganlyniadau y maent am eu cyflawni. Bydd partneriaid statudol yn debygol o roi sylw manylach i adran 3, gan y bydd hyn yn helpu i roi'r strategaeth ar waith yn eu polisïau a'u prosesau eu hunain. Mater i chi yw penderfynu pa rannau o'r ddogfen hon sy'n fwy perthnasol ac yn bwysicach i chi.

Bydd y ddogfen hon yn cyfeirio at **ddogfennau cysylltiedig eraill** sydd ar gael o Swyddfa Trawsnewid Gorllewin Morgannwg. Bydd rhai dolenni hefyd i ffynonellau gwybodaeth ar-lein eraill wedi'u hamlygu drwy'r ddogfen hon.




Mae'r ddogfen hon yn un o gyfres o strategaethau rhanbarthol a gynhyrchwyd gan y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol ar gyfer Gorllewin Morgannwg. Mae pob strategaeth yn diffinio dull rhanbarthol o fynd i'r afael ag un o'r blaenoriaethau allweddol ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol ar draws Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot.

Mae'r strategaethau rhanbarthol yn esbonio'r dull strategol hwn mewn tair rhan:

**Adran 1 – Sefydlu ein nodau**

Yn yr adran hon, byddwn yn sefydlu'r ffactorau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol sy'n dylanwadu ar y cyfeiriad rydym yn anelu amdano ar gyfer y ffocws strategol penodol hwn. Bydd hyn yn rhoi cenhadaeth a gweledigaeth glir i ni a chyfres o egwyddorion y byddwn yn cydweithio â'n gilydd oddi mewn iddynt i gyflawni'n nodau.

**Adran 2 – Diffinio'r cyd-destun**

Yn yr adran hon, byddwn yn egluro'r termau, yr heriau, y cyfleoedd a'r diffiniadau allweddol sy'n sail i'r strategaeth hon. Byddwn hefyd yn disgrifio manylion rhanbarth Gorllewin Morgannwg a'r gwasanaethau perthnasol sydd o fewn ei gwmpas.

**Adran 3 – Cyflawni ein nodau**

Yn yr adran hon, byddwn yn adeiladu ac yn disgrifio sut byddwn yn cyflawni ein cenhadaeth o fewn y cyd-destun a ddiffinnir yn Adran 2. Mae hyn yn rhoi cyfres o ganlyniadau a dangosyddion i ni yn ogystal ag ymagwedd at weithredu sy'n ymdrin â sut y byddwn yn monitro, yn adrodd, yn gwerthuso, yn ariannu ac yn rheoli'r newidiadau sydd i'w cyflawni.

Bydd y **Canllaw Cyfeirio Cyflym** yn dod â holl elfennau'r strategaeth at ei gilydd mewn dogfen fyrrach i chi ei hargraffu a'i chadw wrth law. Mae'r canllaw wedi'i gynllunio fel y gall pobl gysylltu'r cysyniadau allweddol â nodau eang y strategaeth hon.

Partneriaeth Ranbarthol Gorllewin Morgannwg | West Glamorgan Regional Partnership

# Cynnwys


**Adran 1 – Sefydlu ein nodau** ........ 8
- Cenhadaeth ........ 8
- Gweledigaeth ........ 9
- Cydweddu Strategol ........ 12

**Adran 2 – Diffinio'r cyd-destun** ........ 14
- Ynglŷn â Gofalwyr ........ 14
- Ynglŷn â'r rhanbarth ........ 18
- Ynglŷn â'r gwasanaethau ........ 20
- Themâu Allweddol ........ 23

**Adran 3 – Cyflawni ein nodau** ........ 27
- Ymagwedd Strategol ........ 27
- Amcanion ........ 29
- Ffactorau Llwyddiant ........ 31
- Gweithredu ........ 32
- Monitro ac Adrodd ........ 34
- Arfarniad ........ 35
- Cyllid ........ 36
- Egwyddorion ffyrdd o weithio ........ 36

**Atodiadau** ........ 38
- A – Tabl Camau Gweithredu ........ 38
- B – Blaenoriaethau Rhanbarthol ........ 39
- C – Mapio Ysgogwyr Strategol ........ 40
- D – Rhestr Termau ........ 43

# Adran 1 – Sefydlu ein nodau

## Cenhadaeth

Mae'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant yn diffinio "gofalwr" fel **"person sy'n darparu, neu sy'n bwriadu darparu gofal i oedolyn neu blentyn anabl"**. Gall y term "gofalwr" fod yn gysylltiedig â gweithwyr proffesiynol cyflogedig sy'n darparu gofal i bobl. Mae gofalwyr di-dâl fel arfer yn aelodau o'r teulu neu'n ffrindiau sy'n rhoi o'u hamser i gefnogi person y mae angen cymorth arno. Fodd bynnag, nid yw "di-dâl" o reidrwydd yn golygu nad ydynt yn cael unrhyw gymorth ariannol i gyflawni'r rôl hon. Gall rhai gofalwyr hawlio lwfansau a budd-daliadau i'w cefnogi. Mae'r strategaeth hon yn canolbwyntio ar ofalwyr di-dâl ond cyfeirir atynt fel "gofalwyr" drwy gydol y ddogfen hon.

Mae'r strategaeth ranbarthol hon yn ymrwymiad i genhadaeth strategol hirdymor ar gyfer diwallu anghenion gofalwyr. Rydym ni (y Bartneriaeth Ranbarthol sy'n cynnwys cynrychiolwyr, defnyddwyr, gwasanaethau a gofalwyr) yn credu bod y daith hon yn cael ei diffinio gan y datganiad canlynol, y cytunwyd arno mewn partneriaeth â gofalwyr di-dâl, eu cynrychiolwyr a'r sefydliadau sy'n ymwneud â'n partneriaeth gofalwyr rhanbarthol:

**Byddwn yn gweithio gyda'n gilydd i wella lles gofalwyr yng Ngorllewin Morgannwg drwy wrando, dysgu, bod yn gefnogol a chyflawni newidiadau drwy'r Bartneriaeth Ranbarthol sy'n diwallu hawliau ac anghenion gofalwyr.**

Mae'r genhadaeth hon yn golygu ein bod am gydweithio gan ddefnyddio egwyddorion cyd-gynhyrchu a sicrhau ein bod yn gwrando ac yn dysgu gan ofalwyr drwy gydol oes y strategaeth. Rydym am sicrhau cysondeb profiad i ofalwyr sydd wedi'u teilwra i'w hanghenion unigol. Rydym am i'r strategaeth wneud newidiadau lle bo angen i wella gwasanaethau'n barhaus er mwyn gwella lles gofalwyr yn gyson ar draws y rhanbarth.

Drwy ymrwymo i'r genhadaeth hon, ein nod yw cyflawni'n gweledigaeth ar gyfer gofalwyr yn ystod y pum mlynedd nesaf. Byddwn yn parhau i

fonitro'n cenhadaeth ac ailedrych arni i sicrhau ei bod yn parhau'n briodol ac yn cyd-fynd ag anghenion gofalwyr yn ein rhanbarth.

## Gweledigaeth

**Mae gofalwyr yn cael eu hadnabod, eu cydnabod a'u cefnogi i ofalu. Mae ganddynt fywyd ochr yn ochr â gofalu ac mae ganddynt ymdeimlad o les drwy gydol eu taith ofalu.**

Mae'r weledigaeth hon yn cynrychioli'r dyfodol rydym yn dyheu amdano, lle rydym yn cydnabod cyfraniad gofalwyr i'n cymdeithas. Mae'n ddatganiad ein bod yn bwriadu parhau i adnabod, gwrando, parchu a chefnogi gofalwyr yn briodol nid yn unig i barhau â'u rôl gofalu ond i'w galluogi i gael bywydau boddhaus. Ar ddiwedd y strategaeth bum mlynedd hon, rydym am allu edrych yn ôl a gweld bod y weledigaeth hon wedi dod yn wir.




*Ffig. 2. Yr hyn y dywedodd gofalwyr wrthym sy'n bwysig iddynt (2019)*

Datblygwyd gweledigaeth Strategaeth Gofalwyr Ranbarthol Gorllewin Morgannwg mewn sawl cam. Yn 2019, trafododd Cynrychiolwyr Gofalwyr y materion eang sy'n wynebu gofalwyr a datblygodd nifer o ddatganiadau i sbarduno trafodaeth gyda grwpiau mwy o ofalwyr. Sefydlodd digwyddiadau gweithdy a gynhaliwyd yn hydref 2019 weledigaeth a themâu uchelgeisiol a oedd yn bwysig i ofalwyr. Roedd hyn yn sail i 'amlinelliad' o'r strategaeth ranbarthol y gallem barhau i'w datblygu ar y cyd.

Bu'n rhaid canslo ail gyfres o weithdai ym mis Mawrth 2020 oherwydd pandemig COVID-19 ac roedd yn golygu y cymerwyd ymagwedd amgen at gyd-gynhyrchu'r ddogfen hon.

Fodd bynnag, nid oedd yn bosib cyd-gynhyrchu'r strategaeth i'r lefel a ddymunir gan y Bartneriaeth Ranbarthol oherwydd pandemig COVID-19, fodd bynnag, parhaodd cynrychiolwyr Gofalwyr i gymryd rhan. Roeddem yn cydnabod bod angen creu'r amodau cywir ar gyfer cynnwys ac ymgysylltu'n barhaus â gofalwyr er mwyn galluogi cyfleoedd cyd-gynhyrchu i ffynnu.

I'r perwyl hwn, un o'r camau cyntaf sy'n deillio o'r strategaeth hon yw sefydlu **Fforwm Cyswllt Gofalwyr** i ddod â gofalwyr ynghyd â phobl a sefydliadau sy'n gweithio gyda materion sy'n ymwneud â gofalwyr neu sydd â diddordeb ynddynt. Unwaith y bydd y Fforwm wedi'i sefydlu, byddwn yn gofyn am eu cefnogaeth i adolygu a diweddaru'r ddogfen hon drwy gydol oes y strategaeth.

Yn dilyn y brys uniongyrchol a gyflwynwyd gan y pandemig, ailgynulliwyd Grŵp Datblygu'r Strategaeth i drafod ein hymdrechion i greu'r Strategaeth Gofalwyr Rhanbarthol a pharhau â'r gwaith. Roedd y grŵp yn cynnwys Cynrychiolwyr Gofalwyr, Gwasanaethau Cymorth Gofalwyr y Trydydd Sector, a chynrychiolwyr Byrddau Iechyd ac Awdurdodau Lleol. Rhwng mis Awst 2020 a mis Tachwedd 2020, cyfarfu'r grŵp i adolygu'r dystiolaeth bresennol sydd ar gael a thystiolaeth newydd sy'n dod i'r amlwg am effaith y pandemig ar ofalwyr.

Mae'r **gwerthoedd** canlynol yn sail i'r Strategaeth Gofalwyr Rhanbarthol:

- **Mae gofalwyr yn cael eu trin â charedigrwydd, urddas a pharch.**
- **Bydd gweithio gyda gofalwyr yn seiliedig ar sylfaen o onestrwydd ac uniondeb i feithrin perthnasoedd ymddiriedus.**
- **Mae gofalwyr wedi'u grymuso i siarad drostynt eu hunain a'r person y maent yn gofalu amdano os bydd/pan fo angen.**
- **Mae gofalwyr yn cael eu parchu fel arbenigwyr oherwydd eu profiad ac fel arbenigwyr yn lles y person y maent yn gofalu amdano.**
- **Mae gofalwyr yn bartneriaid cyfartal mewn trafodaethau am eu hanghenion.**
- **Cefnogir gofalwyr i sicrhau tegwch i'w galluogi i wneud penderfyniadau gwybodus a gwella'u lles.**
- **Mae hawliau gofalwyr yn cael eu cynnal drwy wneud penderfyniadau cyson, dibynadwy, teg a chlir.**
- **Mae gofalwyr a sefydliadau/gwasanaethau'n dysgu gyda'i gilydd drwy brofiad, empathi a phartneriaeth.**

Byddwn yn defnyddio'r gwerthoedd hyn fel sylfaen ar gyfer popeth a wnawn i gyflawni'r strategaeth ranbarthol hon. Bydd hyn yn sbarduno popeth, o'n hymddygiad wrth gydweithio fel partneriaeth i werthuso bod y newidiadau a ddarparwn yn cyd-fynd ag egwyddorion ein strategaeth.

# Cydweddu Strategol

Mae gofalwyr yn cyfrannu'n sylweddol at gymdeithas yng Nghymru. Yn genedlaethol, amcangyfrifir bod y gofal a ddarperir gan ofalwyr di-dâl yn werth tua £8.1 biliwn y flwyddyn.

Ar hyn o bryd mae **tair blaenoriaeth genedlaethol ar gyfer gofalwyr** – a sefydlwyd gan Lywodraeth Cymru – sy'n sail i'r strategaeth hon:

- **Cefnogi bywyd ochr yn ochr â gofalu** – Rhaid i bob gofalwr gael seibiant rhesymol o'i rôl ofalu i'w alluogi i gynnal ei allu i ofalu, ac i gael bywyd y tu hwnt i ofalu.
- **Nodi a chydnabod gofalwyr** – mae gofalwyr yn haeddu cael eu cydnabod a'u cefnogi fel y gallant barhau i ofalu. Mae'n hanfodol bod gofalwyr yn nodi eu bod yn ofalwyr.
- **Darparu gwybodaeth, cyngor a chymorth** – Mae'n bwysig bod gofalwyr yn cael yr wybodaeth a'r cyngor cywir pan fydd ei angen arnynt ac mewn fformat priodol.

Mae pedwerydd blaenoriaeth genedlaethol a gynigiwyd gan Lywodraeth Cymru yn y Cynllun Cenedlaethol i Ofalwyr[1] hefyd wedi'i chynnwys:

- **Cefnogi gofalwyr mewn addysg ac yn y gweithle** – dylid cefnogi cyflogwyr a lleoliadau addysg/hyfforddiant i addasu eu polisïau a'u harferion gan alluogi gofalwyr i weithio a dysgu ochr yn ochr â'u rôl gofalu.

Cefnogir Llywodraeth Cymru yn ei huchelgais i gyflawni'r blaenoriaethau hyn a gwella canlyniadau i ofalwyr gan Grŵp Cynghori'r Gweinidog ar Ofalwyr. Mae'r grŵp hwn yn fforwm cenedlaethol i gyfeirio a llywio'r gwaith o gyflawni gwelliannau i ofalwyr ledled Cymru. Mae eu gweledigaeth ar gyfer gofalwyr yng Nghymru yn un lle mae'r **"holl ofalwyr yn cael eu hadnabod, eu cydnabod a'u cefnogi am y gofal a'r ymroddiad amhrisiadwy y maent yn eu darparu.**

[1] Cynllun cenedlaethol i ofalwyr (2020) Llywodraeth Cymru Adalwyd o: https://llyw.cymru/cynllun-cenedlaethol-i-ofalwyr

Disgrifiodd ymchwiliad Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon y Senedd[2] i effaith y Ddeddf ar ofalwyr, y cynnydd a wnaed fel "annigonol" a "tameidiog". Derbyniodd Llywodraeth Cymru bob un ond dau o argymhellion y Pwyllgor yn llawn neu mewn egwyddor. Ar gyfer ein rhanbarth, mae'r adroddiad hwn yn cynnig cipolwg gwerthfawr ar y cynnydd y mae'n rhaid ei wneud i sicrhau bod y Ddeddf yn cael effaith fwy cadarnhaol ar ofalwyr.

Yng Ngorllewin Morgannwg, mae ein partneriaeth ranbarthol yn canolbwyntio ar y themâu canlynol fel blaenoriaethau ar gyfer trawsnewid ar draws Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot (ceir rhagor o fanylion yn Atodiad B):

- Pobl hŷn;
- Plant a Phobl Ifanc;
- Iechyd Meddwl;
- Anawsterau Dysgu ac Awtistiaeth;
- Gofalwyr (thema drawsbynciol).

Mae llawer o ysgogwyr, gofynion a dylanwadau strategol eraill sy'n sail i'n dull strategol o gefnogi gofalwyr ar draws y rhanbarth. Adolygwyd ac ystyriwyd y rhain wrth ddatblygu'n Strategaeth Gofalwyr Ranbarthol ac mae trosolwg o bob ffynhonnell o gyfeiriad strategol wedi'i gynnwys yn yr Atodiad C.

[2] Y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon (2019) Gofalu am ein dyfodol: Ymchwiliad i effaith Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 mewn perthynas â gofalwyr. Wedi'i adalw o: https://busnes.senedd.cymru/documents/s96075/Adroddiad%20-%20Gofalu%20am%20ein%20dyfodol%20Ymchwiliad%20i%20effaith%20Deddf%20Gwasanaethau%20Cymdeithasol%20a%20Llesiant%20.pdf

# Adran 2 – Diffinio'r cyd-destun

## Ynglŷn â Gofalwyr

Rydym yn cydnabod bod gofalwyr yn hanfodol i gefnogi'n gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol. Rydym yn cefnogi galwad Gofalwyr Cymru am gydnabyddiaeth fel y "trydydd colofn" i'r isadeiledd hwn[3]. Rydym yn cefnogi'r farn hon oherwydd ar draws Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot mae dros 50,000 o ofalwyr[4] mewn dros 160,000 o aelwydydd[5] sy'n darparu gofal a chymorth sy'n atal yr angen am ymyriadau iechyd a gofal cymdeithasol.

Datgelodd **Adroddiad Ymchwil - Wythnos Gofalwyr 2020**fod gofalwyr, ers y pandemig, yn darparu mwy o ofal nag o'r blaen, ac y gallai nifer y gofalwyr yng Nghymru fod wedi cynyddu o 370,000 i 683,000[6]. Hyd yma, nid yw'r ffordd y mae'r pandemig wedi effeithio ar y ffigurau ar gyfer Gorllewin Morgannwg yn hysbys. Mae Cyfrifiad 2021 yn gyfle i ni ddeall yn well effaith y pandemig ar ein poblogaeth a phennu llinell sylfaen ar gyfer monitro effaith y strategaeth yn y blynyddoedd i ddod.

Nod Deddf Cydraddoldeb 2010 yw atal pobl â nodweddion gwarchodedig rhag gwahaniaethu. Gellir gwahaniaethu yn erbyn pobl ar sail oedran; anabledd; ailbennu rhywedd; priodas a phartneriaeth sifil; beichiogrwydd a mamolaeth; hil; crefydd neu gred; rhyw; tueddfryd rhywiol.

Bydd gan ofalwyr rai o'r nodweddion hyn ac mae ganddynt yr hawl i gael eu hamddiffyn rhag gwahaniaethu. Weithiau gall gofalwyr â nodweddion gwarchodedig deimlo nad yw gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn cydnabod, yn deall nac yn diwallu eu hanghenion yn effeithiol mewn perthynas â'u nodweddion.  Mae'r strategaeth hon yn siarad ar ran pob

---

[3]Sesiwn Friffio 5 Dilyn y Ddeddf Gofalwyr Cymru (2020). Adalwyd o: https://www.carersuk.org/files/section/6609/carers-wales-track-the-act-briefing-final-version-eng.pdf

[4]Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (2011) - Darpariaethau gofal di-dâl yn ôl iechyd cyffredinol yn ôl rhyw ac yn ôl oedran. Adalwyd o: https://www.nomisweb.co.uk/census/2011/lc3301ew

[5]Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (2014) - Nifer y gofalwyr di-dâl mewn cartrefi – Awdurdodau Unedol yng Nghymru. Adalwyd o: https://cy.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/populationandmigration/populationestimates/adhocs/003305ct02762011censusnumberofunpaidcarersinhouseholduasinwales

[6]Adroddiad Ymchwil Wythnos Gofalwyr (2020). Adalwyd o: https://www.carersweek.org/images/CW%202020%20Research%20Adroddiad%20WEB.pdf

gofalwr a thrwy'r Fforwm Cyswllt Gofalwyr rydym am sicrhau bod cynrychiolaeth amrywiol h.y. gan gynnwys pobl o gymunedau BAME a LGBT.

Gall gofalwyr fod o unrhyw oedran, bod â pherthynas wahanol â'r person y maent yn gofalu amdano a sefyllfaoedd bywyd gwahanol. Er enghraifft, gall gofalwyr fod yn Ddu, yn Asiaidd neu o grwpiau Lleiafrifoedd Ethnig eraill [BAME] ac mae'n rhaid bod parch a chefnogaeth yn cael ei rhoi i hunaniaeth gofalwyr o gymunedau Lesbiaidd, Hoyw, Deurywiol a Thrawsryweddol + [LGBT+] hefyd er mwyn iddynt ofalu mewn ffordd sy'n parchu'r hunaniaeth hon. Mae'r dimensiynau gwahanol hyn i ofalu yn golygu bod gofalwyr yr un mor wahanol i'w gilydd ag y maent yn debyg.

Mae'r tabl isod yn dangos y gwahaniaethau posibl yn seiliedig ar oedran, perthnasoedd a'r sefyllfaoedd. Mae'n bwysig nodi y gall sawl gofalwr fod yn ymwneud â gofalu am rywun ac mae pob amgylchiad yn debygol o fod yn wahanol i'r un nesaf, hyd yn oed o fewn yr un sefyllfa ofalu.

| **Mae senarios gofalu yn seiliedig ar…** | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Eich grŵp oedran**<br>***Pa cyfnod o bywyd?*** | Plentyn | Person ifanc | Oedolyn | Oedolyn hŷn | | |
| **Eich perthynas**<br>***Pwy ydych chi'n gofalu am?*** | Rhiant / Nain neu Taid | Brawd neu Chwaer | Prentyn / Wyr neu Wyres | Priod / Partner | Amherthnasol (f.e. cymydog) | |
| **Eich sefyllfa**<br>***Beth mae eich bywyd fe?*** | Gofalu am nifer o bobl | Gewithio | Di-waith / Ymddeol | Mewn addysg | Byw i ffwrdd o'r person chi'n gofalu am | Byw gyda anabledd neu clefyd |

*Ffig. 3. Deall gwahanol sefyllfaoedd gofalu*

Anaml iawn y mae oedran, perthnasoedd a sefyllfaoedd gofalwyr yn sefydlog. Rydym yn cydnabod y gall pobl ddod yn ofalwyr yn raddol, ond gall gofalu hefyd gael ei wthio ar bobl drwy ddigwyddiadau bywyd. Roeddem hefyd yn cydnabod y gall fod gan ofalwyr gyflyrau iechyd sy'n

effeithio ar eu bywydau a hoffem i'r strategaeth hon ddylanwadu ar y ffordd y caiff gofalwyr eu cydnabod wrth lywio'u gwasanaethau gofal a chymorth eu hunain.

Rydym wedi dewis canolbwyntio'n dealltwriaeth o "ofalwyr" ar anghenion gofalwyr yn hytrach na'r sefyllfaoedd sy'n deillio o anghenion y bobl y maent yn gofalu amdanynt. Felly, elfen nad yw wedi'i chynnwys yn y tabl uchod yw'r **mathau o gyflyrau** y mae'r person sy'n derbyn gofal yn byw gyda hwy, boed y cyflyrau hynny'n iechyd corfforol, iechyd meddwl, anableddau dysgu, awtistiaeth a/neu gamddefnyddio sylweddau.

Rydym yn cydnabod y bydd gan ofalwyr sy'n gofalu am bobl â chyflyrau neu gyflyrau lluosog anghenion gwahanol i'w gilydd. Mae hefyd yn bwysig cydnabod y bydd anghenion gofalwyr hefyd yn amrywio rhwng grwpiau o ofalwyr sydd efallai'n ymddangos eu bod yn rhannu llawer o'r un pryderon a phrofiadau. Serch hynny, mae amodau'n cael effaith sylweddol ar lefelau gofal o ran amser, gwybodaeth ac ymdrech. Hoffem i'r Strategaeth Gofalwyr hon ddylanwadu ar sut caiff gofalwyr eu cefnogi yn y llwybrau gofal a chymorth i gleifion a defnyddwyr gwasanaethau ar draws y sector iechyd a gofal cymdeithasol yng Ngorllewin Morgannwg.


Strategaethau Rhanbarthol Gorllewin Morgannwg a fydd yn cefnogi'r Strategaeth Gofalwyr Rhanbarthol hon ac yn cael eu dylanwadu ganddi yw:

- **Strategaeth Plant a Phobl Ifanc Ranbarthol**;
- **Strategaeth Digidol Ranbarthol**;
- **Strategaeth Dementia Ranbarthol**;
- **Strategaeth Tai, Iechyd a Gofal Cymdeithasol Ranbarthol**;
- **Strategaeth Anawsterau Dysgu Ranbarthol**.

Rydym am ddeall y **daith ofalu'n** well a sicrhau bod cefnogaeth addas ar bob cam o'r daith ofalu. Mae llawer o ofalwyr wedi dweud wrthym eu bod yn teimlo bod eu taith yn un go galed, o ran cael gwybodaeth a chyngor a chael mynediad at wasanaethau a chymorth. Rydym yn cydnabod

pwysigrwydd darparu'r gefnogaeth gywir ar yr adeg iawn ar hyd y daith hon.

Rydym wedi dewis cydnabod yr her hon drwy ddangos y daith ofalu yn y diagram isod:




*Ffig. 4. Deall y daith o ddod yn ofalwr*

Gall y daith ofalu fod yn anodd ac yn werth chweil, yn union fel dringo mynydd. Nid yw'n digwydd yn llinol, gall llwybrau ymdonni a gall tir newid. Fodd bynnag, yn wahanol i ddringo un mynydd neu rôl ofalu tymor byr, mae gofalu'n aml yn ymrwymiad hirdymor.

Bydd gofalwyr yn dechrau'r daith gyda lefelau amrywiol o wybodaeth a phrofiad. Efallai y byddant yn gweld ar hyd y daith fod angen help arnynt neu fod angen seibiant arnynt er mwyn iddynt gyrraedd lle da a gallant symud rhwng y rhannau hyn o'r daith yn barhaus drwy gydol y daith. Mae angen hefyd ystyried anghenion gofalwyr ar ddiwedd y daith ofalu, gan gynnwys trosglwyddo o'u cyfrifoldebau gofalu, yr hyn y gall eu profiad ei gynnig i ofalwyr eraill a sut y gallwn ddysgu o'u taith bersonol.

Mae gofalwyr yn dangos i ni drwy eu gweithredoedd bod eu rôl yn un y mae pobl yn ymgymryd â hi oherwydd eu hymrwymiad a'u dycnwch i helpu'r bobl y maent yn poeni amdanynt. Ein nod yw sicrhau bod y daith ofalu'n haws drwy gydweithio â gofalwyr, iechyd, gofal cymdeithasol a

sefydliadau'r trydydd sector i greu'r cymysgedd cywir o wasanaethau a chymorth sy'n diwallu anghenion gofalwyr yng Ngorllewin Morgannwg.

## Ynglŷn â'r rhanbarth

Roedd Rhan 9 o'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i sefydlu Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol ledled Cymru er mwyn:

- gwella lles y boblogaeth;
- wella'r ffordd y caiff gwasanaethau iechyd a gofal eu darparu.

Mae Gorllewin Morgannwg yn un o chwe rhanbarth a sefydlwyd ym mis Ebrill 2016 fel rhan o'r Ddeddf. Mae'n cynnwys awdurdodau lleol Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot, yn ogystal â Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe, un o saith BILl yng Nghymru a sefydlwyd gyntaf yn 2003. Adwaenwyd Gorllewin Morgannwg yn flaenorol fel Bae'r Gorllewin gan ei fod yn cynnwys ardal awdurdod lleol Pen-y-bont ar Ogwr tan fis Ebrill 2019.

Amlygodd **Asesiad o Anghenion Poblogaeth Bae'r Gorllewin** – a gynhaliwyd yn 2014/15 ac a oedd yn seiliedig ar wybodaeth Cyfrifiad 2011 – nifer o ystadegau a ffactorau rhanbarthol sy'n ymwneud â gofalwyr, sy'n cael ei adlewyrchu yn yr adroddiad 'Gofalwyr y mae angen cymorth arnynt'. Roedd hyn yn cynnwys:

- Roedd 12.7% o bobl yn Abertawe (30,349) yn cydnabod eu bod yn ofalwyr;
- Roedd 14.6% o bobl yng Nghastell-nedd Port Talbot (20,365) yn cydnabod eu bod yn ofalwyr (y ganran uchaf o'i phoblogaeth yng Nghymru);
- Cynyddodd nifer y bobl ar draws y rhanbarth a oedd yn derbyn cymorth i ofalwyr dros gyfnod adrodd 2013 - 2015;
- Roedd canran y gofalwyr ifanc (5 i 17 oed) yn cynyddu ledled Cymru;
- Nifer yr oedolion sy'n ofalwyr sy'n 50 oed neu'n hŷn ym Mae'r Gorllewin oedd 39,757 (cyfanswm o tua 58% o oedolion sy'n ofalwyr);

- Roedd cydberthynas glir rhwng nifer yr oriau gofal di-dâl ac iechyd y gofalwr a gofnodwyd (mae oriau hirach yn arwain at ffyrdd llai iach o fyw a lles gwaeth);
- Dangosodd amcanestyniadau, er y rhagwelwyd y byddai nifer y gofalwyr yn cynyddu dros amser, y byddai oedran y gofalwyr hyn hefyd yn cynyddu, yn unol â disgwyliad oes y boblogaeth.

Fel rhan o'r asesiad hwn, dywedodd gofalwyr wrthym hefyd am yr hyn sy'n bwysig iddynt:

- *“Un pwynt cyswllt ar gyfer gwybodaeth am wasanaethau, gweithgareddau a materion ariannol”;*
- *“Gwella sut rhennir gwybodaeth rhwng gweithwyr proffesiynol ac ar draws gwasanaethau”;*
- *“Grwpiau cefnogi a gwasanaethau i ofalwyr”;*
- *“Cymorth i wella trefniadau teithio i gyrraedd y person y gofelir amdano a dychwelyd adref”;*
- *“Amddiffyn plant rhag lefelau gofalu amhriodol”.*

# Ynglŷn â'r gwasanaethau

Mae amrywiaeth o wasanaethau ar gael i ofalwyr ar draws rhanbarth Gorllewin Morgannwg; mae rhai yn wasanaethau cyhoeddus statudol a ddarperir gan Awdurdodau Lleol neu BIPBA, mae rhai yn wasanaethau gwirfoddol (gyda chymorth mudiadau gwirfoddol yn y Trydydd Sector ond yn cael eu hariannu o wahanol ffynonellau gan gynnwys Llywodraeth Cymru) ac mae eraill yn wasanaethau preifat. Isod ceir rhai o brif enghreifftiau'r mathau hyn o wasanaethau:

**Eiriolaeth** – Weithiau mae angen help ar ofalwyr gan bobl sy'n gallu gweithredu fel llefarydd o ran gohebiaeth, gwneud penderfyniadau a chyfarfodydd. Mae eiriolwyr yn darparu'r gefnogaeth annibynnol hon i ofalwyr fel rhan o'r Asesiadau o Anghenion Gofalwyr, cynllunio gofal a chymorth, a diogelu.

**Budd-daliadau a Chredydau Treth** – Mae cymorth ariannol ar gael i ofalwyr. Er y gall gwahanol sefyllfaoedd bennu'n union yr hyn y mae gan ofalwr hawl iddo, gall hyn gynnwys Credyd Cynhwysol, Lwfans Gofalwr, Credyd Gofalwr, Credyd Pensiwn a budd-daliadau lles perthnasol eraill.

**Seibiau a Seibiannau** – a elwir hefyd yn 'seibiannau byr', mae fel arfer yn golygu bod y person sy'n derbyn gofal yn treulio amser mewn amgylchedd gofal preswyl neu'n dod o hyd i ddull amgen (e.e. taliadau uniongyrchol) i alluogi'r gofalwr i drefnu seibiant o'i gyfrifoldebau gofalu.

**Cerdyn Argyfwng Gofalwyr** – math o gerdyn adnabod i ddangos bod unigolyn yn ofalwr, sy'n helpu'r gofalwr i nodi'i hun mewn argyfwng sy'n ymwneud â'r person sy'n derbyn gofal.

**Cymorth i Ofalwyr mewn Ysbytai** – mae'r gwasanaeth hwn yn targedu gofalwyr pobl sydd yn yr ysbyty ac efallai y bydd angen gwybodaeth a chymorth arnynt am eu rôl fel gofalwyr yn ogystal â chymorth yn y broses o ryddhau'r claf o'r ysbyty i ddychwelyd adref.

**Cwnsela** – Gall gofalwyr gael cyfle i siarad â chwnselydd cymwysedig drwy wasanaethau wyneb yn wyneb, dros y ffôn neu ar-lein. Gall helpu'r gofalwr i drafod ei deimladau ac archwilio atebion i'r heriau y mae'n eu hwynebu yn ei rôl fel gofalwr.

**Gwasanaethau Helpu** – Gallai asesiad o anghenion gofalwr nodi gwasanaethau cymorth penodol sy'n berthnasol mewn rhai sefyllfaoedd gofalu, o arddio a gwaith tŷ i gymorth proffesiynol ar gyfer cyflyrau iechyd penodol (fel rhieni/gofalwyr plant ar y Sbectrwm Awtistig). Gall rhai gwasanaethau fod yn destun cyllid grant neu ddulliau eraill o gymorth ariannol.

**Therapïau Holistaidd** – Gall gofalwyr fanteisio ar amrywiaeth o wasanaethau therapiwtig i'w helpu i reoli eu hiechyd a'u lles, gan gynnwys Reiki, adweitheg a thylino.

**Rhwydweithio a Chymorth Cymheiriaid** – Mae llawer o wahanol weithgareddau sy'n gallu dod â gofalwyr ynghyd o bob rhan o gymuned, grŵp cymdeithasol neu ardal, o foreau coffi i weithgareddau cymdeithasol i fforymau rhwydweithio. Mae cymorth allgymorth a ddarperir gan y trydydd sector yn galluogi llawer o weithgareddau o'r fath i gael eu cydgysylltu'n lleol.

**Gwasanaeth Eistedd** – a elwir hefyd yn 'wasanaeth ymateb i ofalwyr' neu'n 'wasanaeth cyfeillio' - mae hyn yn golygu bod rhywun yn ymgymryd â dyletswyddau gofalwr dros dro ar gyfer yr unigolyn sy'n derbyn gofal, gan ganiatáu i'r gofalwr hwnnw gael hoe o'i gyfrifoldebau a mwy o amser iddo'i hun.

**Llinell Gymorth Ffôn** – Mae nifer o sefydliadau, nid awdurdodau lleol yn unig, yn cynnig cymorth dros y ffôn a llinellau cymorth gan gynnwys Canolfan Gofalwyr Abertawe yn lleol i Carers UK ac Age UK yn genedlaethol. Gall hyn gynnwys cyfeirio gofalwyr i wybodaeth bellach sydd ar gael ar-lein neu gyngor ar sut i gwyno am wasanaeth.

**Taliadau Uniongyrchol** – Efallai bydd gan ofalwyr yr opsiwn i ofyn am daliad uniongyrchol yn hytrach na chael cymorth ar ffurf gwasanaeth. Yn seiliedig ar asesiad, gellir penderfynu y gellir cefnogi gofalwyr yn well gyda'r cymorth ariannol i ddewis a phrynu'r cymorth sydd ei angen arnynt drwy wahanol wasanaethau a dulliau gweithredu.

Mae amrywiaeth o sefydliadau hefyd sy'n chwarae rhan bwysig yn y gwaith o gefnogi gofalwyr yng Ngorllewin Morgannwg:

| Sefydliad | Cyswllt | Diben |
|---|---|---|
| **Canolfan Gofalwyr Abertawe** | 104 Mansel Street,<br>Abertawe SA1 5UE<br>Ffôn:  01792 653344<br>www.swanseacarerscentre.org.uk | …Mae'r ganolfan yn darparu amrywiaeth o wybodaeth, cyngor, gwasanaethau cefnogi a digwyddiadau i ofalwyr. |
| **Gwasanaeth Gofalwyr Castell-nedd Port Talbot** | Canolfan Iechyd a Gofal Cymdeithasol Cimla, Castell-nedd SA11 3SU<br>Ffôn:  01639 642277<br>www.nptcarers.co.uk | ...  nodi gofalwyr a rhoi cyngor, gwybodaeth a chymorth i ofalwyr 18 oed ac yn hŷn yng Nghastell-nedd Port Talbot |
| **Fforwm Rhieni a Gofalwyr Abertawe** | 61 Pennard Drive<br>Southgate<br>Abertawe<br>SA3 2DN<br>swanseapcf.org | ... gweithio ar y cyd â gwasanaethau lleol i helpu i sicrhau gwelliannau mewn gwasanaethau i blant anabl, pobl ifanc a'u teuluoedd. |
| **Hafal Abertawe** | Alexandra House, Alexandra Road, Abertawe SA1 5ED<br>Ffôn:  01792 816600<br>www.hafal.org | ... yn cynnig cymorth a gwybodaeth yn ystod y dydd i ofalwyr oedolion â phroblemau iechyd meddwl difrifol a hefyd grŵp cymorth misol. |
| **YMCA Abertawe** | YMCA<br>Abertawe<br><br>1 Ffordd y Brenin, Abertawe SA1 5JQ<br>Ffôn:  01792 652 032<br>www.ymca.org.uk/location/ymca-swansea | yn darparu cymorth a gwybodaeth i ofalwyr ifanc 8-18 oed yn Abertawe. |

| Sefydliad | Cyswllt | Diben |
|---|---|---|
| **Gwasanaeth Ieuenctid Castell-nedd Port Talbot** | Gwasanaeth Ieuenctid Castell-nedd Port Talbot<br>Canolfan Tir Morfa<br>Marine Drive<br>Sandfields<br>Port Talbot<br>SA12 7NN<br>Ffôn:  01639 763030<br>www.npt.gov.uk | Mae Gwasanaeth Gofalwyr Ifanc Castell-nedd Port Talbot yn cynnig amrywiaeth o gefnogaeth i blant a phobl ifanc hyd at 25 oed y mae ganddynt rôl ofalu. Gallai hyn fod oherwydd salwch, anabledd, problem iechyd meddwl neu gamddefnyddio cyffuriau neu alcohol. |

# Themâu Allweddol

Er mwyn cefnogi'r gwaith o fabwysiadu'r strategaeth hon ar draws y rhanbarth, darperir **Canllaw Cyfeirio Cyflym** y gellir ei dynnu allan, sy'n amlinellu'r weledigaeth a'r gwerthoedd ac sy'n dilyn cyfres o gysyniadau a gwybodaeth, ac fe'i darperir yn Atodiad D. Mae'r holl gysyniadau yn y tablau rydych chi ar fin eu gweld yn cael eu tynnu ynghyd mewn canllaw cyfeirio cyflym er hwylustod.

Mae'r tabl canlynol yn amlinellu'r trywyddau trawsbynciol y mae angen iddynt dreiddio drwy'r themâu.

<table>
<tr><th>Trywyddau trawsbynciol</th><th>Thema</th></tr>
<tr><td rowspan="6">Lles gofalwyr<br>Cyfathrebu<br>Cydgynhyrchu<br>Hyfforddiant</td><td>Cydbwyso blaenoriaethau</td></tr>
<tr><td>Cefnogi ei gilydd</td></tr>
<tr><td>Gwybodaeth a chyngor</td></tr>
<tr><td>Wedi'u hadnabod a'u cydnabod</td></tr>
<tr><td>Urddas a pharch</td></tr>
<tr><td>Gwasanaethau Cefnogi</td></tr>
</table>

Deilliodd y themâu'n wreiddiol o'r digwyddiadau cydgynhyrchu a gynhaliwyd yn hydref 2019. Amlygodd adolygiad dilynol o'r dystiolaeth o

ddogfennau strategol faterion allweddol sy'n effeithio ar yr holl themâu a nodwyd. Rydym wedi amlinellu'r rhain fel trywyddau trawsbynciol y dylid eu hystyried mewn ymagweddau at ddiwallu anghenion o dan bob un o'r themâu.

Mae'r tabl isod yn cynnwys rhagor o fanylion ynghylch pob un o'r themâu a'r hyn y maent yn ei olygu i ofalwyr:

| Thema | Barn Gofalwyr | Beth mae hyn yn ei olygu? |
|---|---|---|
| **Cydbwyso blaenoriaethau** | *Mae gofalwyr yn gwerthfawrogi cael seibiant o ofalu* | • Gwell ystod ac ansawdd gwasanaethau i ddiwallu anghenion gofalwyr am seibiant e.e. seibiant<br>• Mwy o hyblygrwydd a dewis<br>• Mwy o gymorth i alluogi gofalwyr i fanteisio ar gyfleoedd cymdeithasol a hamdden<br>• Mwy o gyfleoedd i 'gymryd seibiant'<br>• Cymorth i alluogi gofalwyr i gael mynediad at waith, addysg neu wirfoddoli |
| **Cefnogi ei gilydd** | *Mae gofalwyr yn gwerthfawrogi cefnogaeth gan ofalwyr eraill* | • Mwy o rwydweithio a rhyngweithio<br>• Mwy o gymorth gan gymheiriaid a gwasanaethau yn y gymuned neu'n lleol<br>• Gwell sianeli ar gyfer ymgysylltu<br>• Ymwybyddiaeth gynyddol o faterion/straeon gofalwyr<br>• Galluogi cynhwysiant digidol i ofalwyr |
| **Gwybodaeth a chyngor** | *Mae gofalwyr yn gwerthfawrogi'r wybodaeth a'r cyngor cywir* | • Mae hawdd cael gafael ar ganllawiau ac mae'n nhw'n hawdd eu deall (yn glir ac yn gryno)<br>• Gwahanol sefydliadau "ar yr un dudalen"<br>• Mae canllawiau'n cael eu cyfeirio/yn hygyrch<br>• Un pwynt cyswllt i gael gwybodaeth am ba gymorth sydd ar gael |
| **Wedi'u hadnabod a'u cydnabod** | *Mae gofalwyr yn gwerthfawrogi cael eu cydnabod am fod yn ofalwr* | • Gweithwyr proffesiynol (e.e. meddygon, fferyllwyr, staff rheng flaen) yn fwy ymwybodol o ofalwyr a'u hawliau<br>• Mae gofalwyr newydd yn deall beth mae'n ei olygu i fod yn ofalwr<br>• Hyrwyddo gwasanaethau statudol i ofalwyr i bob parti<br>• Anogir gofalwyr i hunan-adnabod fel gofalwr.<br>• Gwerthfawrogir gofalwyr fel partneriaid arbenigol mewn gofal a chânt eu cynnwys mewn sgyrsiau ac wrth wneud penderfyniadau. |

| Thema | Barn Gofalwyr | Beth mae hyn yn ei olygu? |
|---|---|---|
| **Urddas a pharch** | *Mae gofalwyr yn gwerthfawrogi cael eu trin yn briodol am fod yn ofalwr* | • Mae ymddygiadau gan staff yn cynnwys empathi<br>• Mae agweddau gan staff yn cynnwys parch<br>• Mae'r camau gweithredu'n cynnwys gwrando ystyrlon<br>• Yn cyd-fynd â Chonfensiynau ac Egwyddorion y Cenhedloedd Unedig<br>• Mae partneriaethau'n golygu cysondeb yn y ffordd y caiff gofalwyr eu trin ar draws proffesiynau a'r rhanbarth. |
| **Gwasanaethau Cefnogi** | *Mae gofalwyr yn gwerthfawrogi cymorth i ddeall eu hawliau ac i dderbyn cymorth* | • Mynediad amserol i Asesiad o Anghenion Gofalwyr/Gynllun Cymorth i Ofalwyr<br>• Cymorth Tai Ymatebol (e.e. addasu cartrefi)<br>• Cefnogaeth Addysg gyson ac amserol (e.e. i ofalwyr ifanc sy'n cael trafferth yn yr ysgol neu oedolion sy'n dysgu)<br>• Cymorth cludiant amserol a hygyrch (e.e. gofalwyr sy'n byw mewn lleoliad gwahanol i'r person sy'n derbyn gofal) |

Mae'r themâu a nodwyd yn darparu fframwaith ar gyfer deall anghenion gofalwyr yn well ond fel y mae cynifer o ofalwyr wedi dweud wrthym, "mae dealltwriaeth yn wych ond beth yw'r ots?"

Roedd ein Grŵp Datblygu Strategaeth yn awyddus i sicrhau bod y themâu'n trosi'n ganlyniadau pendant i ofalwyr di-dâl. Datblygwyd y canlyniadau canlynol ar gyfer pob un o'r themâu yn seiliedig ar y dystiolaeth a adolygwyd. Rydym yn bwriadu cael cefnogaeth y Fforwm Cyswllt Gofalwyr i adolygu'r canlyniadau hyn dros oes y strategaeth. Nid yw'r niferoedd yn ymwneud â phwysigrwydd na blaenoriaeth ond maent i gynorthwyo croesgyfeirio â chynlluniau gweithredu a phrosesau monitro.

| Thema | Canlyniadau |
|---|---|
| **Cydbwyso blaenoriaethau** | 1. Mae gan ofalwyr gyfleoedd seibiant hyblyg ac ymatebol.<br>2. Mae gofalwyr yn cael cymorth i ddatblygu cynlluniau wrth gefn.<br>3. Mae gweithdai lles ar gael i ofalwyr.<br>4. Mae gofalwyr yn cael cymorth addysgol ac yn y gweithle. |
| **Cefnogi'i gilydd** | 5. Mae gofalwyr yn cael cyfleoedd i gwrdd â'i gilydd.<br>6. Mae grwpiau sy'n cael eu harwain gan ofalwyr yn gyffredin. |

| Thema | Canlyniadau |
|---|---|
| **Gwybodaeth a chyngor** | 7. Hysbysir gofalwyr o'u hawliau.<br>8. Mae gan ofalwyr byrth/leoedd gwybodaeth a chyngor pwrpasol wedi'u teilwra ar draws yr holl ddarparwyr statudol.<br>9. Mae gan ofalwyr wybodaeth am gynllunio wrth gefn a chyngor arno.<br>10. Hysbysir gofalwyr am Asesiadau a sut gallant fod yn fuddiol.<br>11. Darperir ar gyfer opsiynau hawdd eu darllen ac ieithoedd lleiafrifol yn briodol. |
| **Wedi'u hadnabod a'u cydnabod** | 12. Cydnabyddir gofalwyr hyd yn oed os nad ydynt yn hunan-adnabod.<br>13. Mae sefydliadau a staff sy'n cefnogi gofalwyr yn mynd ati i'w hadnabod.<br>14. Mae cyfrifoldeb ar y cyd ar draws ac o fewn sefydliadau am adnabod gofalwyr. |
| **Urddas a pharch** | 15. Mae gofalwyr yn cael eu cydnabod fel arbenigwyr yn ôl profiad.<br>16. Mae ymwybyddiaeth o Ofalwyr yn gyffredin.<br>17. Dulliau safonol ar draws adrannau e.e. ysgolion, gwasanaethau CChI, rhyddhau o'r ysbyty.<br>18. Mae dulliau cyson ar draws ac o fewn sefydliadau. |
| **Gwasanaethau Cefnogi** | 19. Mae datblygiadau a newidiadau newydd yn cael eu cyd-gynhyrchu â gofalwyr.<br>20. Ariennir gwasanaethau gofalwyr yn gynaliadwy<br>21. Cynigir taliadau uniongyrchol i ofalwyr.<br>22. Defnyddir profiadau cadarnhaol a negyddol gofalwyr i lywio gwelliannau i ansawdd gwasanaethau.<br>23. Mae gan ofalwyr fynediad ymatebol a hyblyg at wasanaethau iechyd meddwl a lles. |


Efallai y bydd yn ymddangos bod rhai o'r canlyniadau hyn yn anodd eu cyflawni i ddechrau. Nod y strategaeth hon yw bod yn ddyheadol ac rydym yn cydnabod na fydd yr holl ganlyniadau a restrir yn cael eu cyflawni'n llawn yn ystod y strategaeth bum mlynedd hon. Gyda'n gilydd, disgwylir i ni weithio tuag at gyflawni'r canlyniadau hyn er budd dinasyddion a gofalwyr. Amlinellir ein hymagwedd at gyflawni'r canlyniadau hyn yn yr adran nesaf ond datblygir cynllun manylach gyda gofalwyr a phartneriaid eraill i gefnogi nodau'r strategaeth hon.

# Adran 3 – Cyflawni ein nodau

## Ymagwedd Strategol

Mae'r strategaeth hon wedi sefydlu'n huchelgeisiau rhanbarthol ar gyfer gwella a thrawsnewid y ffyrdd y caiff gofalwyr eu cefnogi drwy gydol eu taith gofalu. Mae hefyd wedi amlygu'r cyd-destun strategol ar gyfer yr uchelgeisiau hyn a'r ffactorau a fydd yn dylanwadu ar ein cynlluniau ar gyfer newid dros gyfnod y strategaeth hon. Mae angen i ni yn awr ddiffinio sut byddwn yn rhoi'r canlyniadau a nodwyd yn flaenoriaethau gennym ar waith dros y bum mlynedd nesaf.

Mae'r diagram canlynol yn diffinio'r ymagwedd strategol hon ar gyfer ein strategaeth ranbarthol bum mlynedd:




*Ffig. 5. Ein taith bum mlynedd strategol i ofalwyr*

Isod mae rhai o'r pwyntiau allweddol i'w nodi am y daith strategol hon yn y diagram uchod:

- Caiff y strategaeth ei lansio'n ffurfiol yn ystod chwarter cyntaf 2021/22 drwy'r Fforwm Cyswllt Gofalwyr;

- Bydd strategaeth ranbarthol yn gatalydd i'n Cyrff Partneriaeth ddatblygu neu adnewyddu eu strategaethau a'u cynlluniau gweithredu lleol eu hunain mewn perthynas â gofalwyr;
- Yn dilyn ymateb Llywodraeth Cymru i'r ymgynghoriad cyhoeddus ar Gynllun Cenedlaethol Gofalwyr Cymru, bydd y strategaeth yn cael ei hailystyried gyda'r Fforwm Cyswllt Gofalwyr gan ddefnyddio egwyddorion cyd-gynhyrchu i fireinio'n blaenoriaethau, ein canlyniadau a'n hamcanion;
- Bob blwyddyn, bydd y Bwrdd Partneriaeth Gofalwyr yn cydlynu cynllunio gweithredu manwl ar sail y strategaeth hon, er mwyn nodi pa gamau y mae angen eu cymryd a sut y caiff cyllid ei ddefnyddio ar gyfer y flwyddyn ariannol sydd i ddod;
- Bydd blwyddyn gyntaf y prosiectau a ariennir (2021/22) yn cael ei llywio gan flaenoriaethau lefel uchel y strategaeth hon ond wrth i'r strategaeth gael ei hadnewyddu'n ddiweddarach yn 2021, caiff meini prawf manylach eu diffinio i benderfynu pa brosiectau y dylid eu hariannu yn y dyfodol;
- Ar gyfer blynyddoedd dilynol (2022/23 a thu hwnt), byddwn yn defnyddio dull comisiynu rhanbarthol i sicrhau bod y newidiadau a ddarparwn yn cael eu cyfeirio gan flaenoriaethau'r strategaeth hon ac yn cyfrannu at ein blaenoriaethau allweddol ar gyfer gofalwyr yng Ngorllewin Morgannwg;
- Bydd ein strategaeth a'n gweithgareddau cynllunio blynyddol hefyd yn hysbysu'n Cyrff Partneriaeth wrth gynllunio gweithgareddau lleol, fel bod cynlluniau gweithredu Awdurdodau Lleol a Byrddau Iechyd yn cyd-fynd â'r cyfeiriad strategol rhanbarthol ar gyfer gofalwyr. Bydd y gweithgareddau cynllunio hyn hefyd yn bwydo i mewn i'r strategaethau a'r fframweithiau rhanbarthol eraill ar gyfer y Bartneriaeth Ranbarthol (e.e. Digidol, Tai, PPI ac ati);
- Ym mlwyddyn olaf y strategaeth hon (2025/26), byddwn yn cynnal cylch newydd o gynllunio strategol ac yn adnewyddu'n gweledigaeth, ein cenadaethau a'n nodau strategol ar gyfer gofalwyr yng Ngorllewin Morgannwg.

# Amcanion

Gyda'r ymagwedd hon at ymdrin â'n strategaeth ranbarthol, gallwn ganolbwyntio'n hadnoddau, ein cyfleoedd ariannu a'n hymdrechion cydweithredol ar gyflawni'r newidiadau sy'n diwallu anghenion gofalwyr yn ein rhanbarth orau.

Rydym yn nodi beth ddylai'r newidiadau hyn fod drwy amcanion sydd wedi'u diffinio'n glir. Bydd rhai o'r amcanion hyn yn weithgareddau tymor byr, bydd eraill yn cymryd mwy o amser i'w cyflawni oherwydd eu cymhlethdod neu ein huchelgeisiau. Wrth i ni gyflawni un amcan, gall hyn hefyd greu syniadau ar gyfer ffyrdd newydd o gyflawni'r canlyniadau a ddymunir.

Mae'r tabl canlynol yn rhestru'r amcanion allweddol y byddwn yn bwriadu eu cyflawni er mwyn bodloni'n datganiadau cenhadaeth a'n gweledigaeth:

| Rhif | Thema Allweddol | Amcan |
|---|---|---|
| 1 | **Cydbwyso blaenoriaethau** | • Mapio'r ddarpariaeth seibiant a'r cyfleoedd arloesi presennol i gytuno ar egwyddorion rhanbarthol/ymagwedd at ymdrin â seibiant a gwyliau byr.<br>• Nodi meysydd allweddol lle mae angen cynrychiolaeth ar Fwrdd Partneriaeth Gofalwyr e.e. addysg.<br>• Sefydlu prosesau ar gyfer cysylltu'r Fforwm Cyswllt Gofalwyr â strwythurau llywodraethu e.e. cynrychiolwyr ar y BPG a'r BPRh.<br>• Cefnogi'r gwaith o gyflwyno offer cynllunio wrth gefn a chymorth i'w gwblhau.<br>• Blaenoriaethu a hyrwyddo mentrau sy'n cefnogi lles gofalwyr. |

| Rhif | Thema Allweddol | Amcan |
|---|---|---|
| 2 | **Cefnogi'i gilydd** | • Sefydlu Fforwm Cyswllt Gofalwyr a thyfu aelodaeth unigolion a grwpiau gofalwyr.<br>• Sefydlu grwpiau gofalwyr ar gyfer staff ym mhob sefydliad partner statudol ac annog cyflogwyr ar draws y rhanbarth i wneud yr un peth.<br>• Mapio grwpiau a rhwydweithiau cymorth i ofalwyr ar draws y rhanbarth. |
| 3 | **Gwybodaeth a chyngor** | • Datblygu mentrau gwybodaeth a chyngor rhanbarthol e.e. hawliau, asesiadau gofalwyr, taliadau uniongyrchol etc.<br>• Bydd yr holl ddogfennau gofalwyr rhanbarthol ar gael yn Gymraeg, ar ffurf fersiynau hawdd eu darllen ac mewn ieithoedd lleiafrifol eraill sy'n gyffredin yng nghymunedau Gorllewin Morgannwg.<br>• Sefydlu "siop dan yr unto" o ffynonellau gwybodaeth ddigidol. |
| 4 | **Wedi'u hadnabod a'u cydnabod** | • Datblygu a chynnal set ddata ranbarthol ar ddemograffeg gofalwyr yng Ngorllewin Morgannwg<br>• Nodi pwyntiau cyswllt allweddol lle gellir adnabod gofalwyr a sefydlu dull rhanbarthol o gyfeirio at wybodaeth, cyngor a chymorth.<br>• Cefnogi cyflwyno cynlluniau hyfforddi Ymwybyddiaeth Gofalwyr. |
| 5 | **Urddas a pharch** | • Datblygu siarter gofalwyr i sefydliadau ymrwymo iddi ar draws y rhanbarth.<br>• Datblygu a hyrwyddo gwybodaeth am ymwybyddiaeth o hawliau.<br>• Datblygu llyfrgell o straeon gofalwyr sy'n cefnogi ymgysylltu a hyrwyddo gwasanaethau a chymorth i ofalwyr. |

| Rhif | Thema Allweddol | Amcan |
|---|---|---|
| 6 | **Gwasanaethau Cefnogi** | • Comisiynu Gwasanaethau Gofalwyr yn unol â themâu a blaenoriaethau.<br>• Adnewyddu gwasanaethau gofalwyr i fapio a nodi bylchau neu gyfleoedd posib.<br>• Diffinio a gweithredu ymagwedd ranbarthol at ymdrin â thaliadau uniongyrchol i ofalwyr.<br>• Hyrwyddo'r Fforwm Cyswllt Gofalwyr fel grŵp sefydledig i bartneriaid gymryd rhan yn eu cyfleoedd cydgynhyrchu.<br>• Datblygu ymagwedd ranbarthol at ddysgu o heriau cyffredin a wynebir gan ofalwyr o ran cael gafael ar wasanaethau a'u defnyddio. |

Bydd yr atebion i bob un o'r amcanion hyn yn cael eu gweithredu yn unol â'n gwerthoedd y cytunwyd arnynt ac efallai y byddwn yn dod o hyd i fwy nag un ateb sy'n werth ei gyflawni. Bob blwyddyn, bydd y Bwrdd Partneriaeth Gofalwyr yn cynllunio camau gweithredu i flaenoriaethu mentrau rydym am eu cyflawni sy'n cyflawni'r amcanion hyn, yn ogystal ag unrhyw amcanion newydd neu ddiwygiedig a allai godi o'n cydweithio â'r Fforwm Cyswllt Gofalwyr.

# Ffactorau Llwyddiant

Mae angen dull clir ar bob strategaeth o fesur a yw'r newidiadau y mae'n eu rhoi ar waith yn llwyddiannus. Bydd yr holl gamau y byddwn yn eu cymryd yn ystod y strategaeth bum mlynedd hon yn cael eu mesur yn erbyn ein gweledigaeth gan ddefnyddio'r Ffactorau Llwyddiant yn y tabl isod:

| Rhif | Ffactor Llwyddiant | Dangosyddion |
|---|---|---|
| 1 | **Wedi'u hadnabod** | • (Cynnydd) Nifer y gofalwyr yng Ngorllewin Morgannwg<br>• (Cynnydd) Nifer y rhai a aeth i'r Fforwm Cyswllt Gofalwyr<br>• (Cynnydd) Nifer y rhai sy'n derbyn cyfathrebiadau wedi'u targedu i Ofalwyr |


| Rhif | Ffactor Llwyddiant | Dangosyddion |
|---|---|---|
| 2 | **Wedi'u cydnabod** | • (Cynnydd) % y gofalwyr sy'n dweud eu bod yn cydnabod eu hunain fel gofalwr<br>• (Cynnydd) Nifer y bobl sy'n mynychu'r cwrs hyfforddi Ymwybyddiaeth Gofalwyr<br>• (Cynnydd) Nifer y bobl sy'n gwneud cais am Gardiau Adnabod Gofalwyr |
| 3 | **Wedi'u cefnogi i ofalu** | • (Cynnydd) Nifer sy'n manteisio ar Daliadau Uniongyrchol<br>• (Cynnydd) Swm y Cymorth Treth a'r Budd-daliadau a briodolir i Ofalwyr<br>• (Cynnydd) Nifer y gofalwyr sy'n defnyddio gwasanaethau helpu<br>• (Cynnydd) Nifer y grwpiau a'r gweithgareddau Cymorth Cymheiriaid i ofalwyr |
| 4 | **Bywyd ochr yn ochr â gofalu** | • (Cynnydd) Nifer sy'n manteisio ar Seibiant<br>• (Cynnydd) Nifer y gofalwyr sy'n defnyddio gwasanaethau eistedd |
| 5 | **Ymdeimlad o les** | • (Cynnydd) % y gofalwyr sy'n adrodd am welliant yn eu lles yn ystod y 12 mis diwethaf<br>• (Cynnydd) Nifer y gofalwyr sy'n defnyddio gwasanaethau iechyd meddwl 'ataliol' (cwnsela, therapïau etc.)<br>• (Gostyngiad) Nifer y gofalwyr sy'n defnyddio gwasanaethau iechyd meddwl 'argyfwng' (Gwasanaeth Noddfa, meddyginiaeth ac ati) |

Bydd ein hymagwedd at reoli'r Ffactorau Llwyddiant hyn ac adrodd am ein cynnydd drwy gydol oes y strategaeth hon yn cyd-fynd â fframwaith Gorllewin Morgannwg ar gyfer mesurau perfformiad sydd, ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, wrthi'n cael ei ddatblygu. Byddwn hefyd yn parhau i adolygu ac adnewyddu'r mesuriadau hyn er mwyn sicrhau eu bod yn parhau i fod yn addas i'r diben ar gyfer ein huchelgeisiau a'n swyddogaethau strategol.

## Gweithredu

Byddwn yn cyflawni'r amcanion a restrir uchod drwy ddatblygu **Cynllun Gweithredu Gofalwyr Ranbarthol Gorllewin Morgannwg** gyda'r holl


gamau gweithredu sydd eu hangen i gyflawni hyn. Mae'r Cynllun Gweithredu hwn yn cyd-fynd â'r strategaeth ond mae'n canolbwyntio'n fwy ar y gweithgareddau manwl y byddwn yn eu cyflawni drwy ein rhaglenni, ein prosiectau a'n swyddogaethau rhanbarthol yng Ngorllewin Morgannwg. Bydd hefyd yn amlinellu unrhyw dargedau, mesurau gwerthuso a monitro yn erbyn amcanion y strategaeth hon. Bydd yn eiddo i'r Bwrdd Partneriaeth Gofalwyr o dan lywodraethu BPRh Gorllewin Morgannwg.




*Ffig. 1. Ein trefniadau llywodraethu ar gyfer y Strategaeth Gofalwyr Ranbarthol*

# Monitro ac Adrodd

Wrth i ni symud ymlaen yn ein hymdrechion i gyflawni'n cenhadaeth a chyflawni gweledigaeth ein strategaeth ranbarthol, byddwn yn monitro'n cynnydd yn rheolaidd er mwyn sicrhau ein bod ar y trywydd iawn i gyflawni'n canlyniadau. I wneud hyn, byddwn yn defnyddio **Dangosyddion** cyffredin (i ddangos barn strategol am gynnydd) a **Mesurau Perfformiad** penodol ar gyfer pob un o'r prosiectau a mentrau a gomisiynwn fel rhan o'n Cynllun Gweithredu.




*Ffig. 5. Ein hymagwedd at fonitro ac adrodd*

Byddwn hefyd yn adrodd yn rheolaidd am ein cynnydd drwy'r sianeli adrodd canlynol:

- **Ffurflenni Prosiect** – bydd pob prosiect a ariennir i gyflawni camau gweithredu sy'n cyfrannu at ein strategaeth yn cynhyrchu enillion chwarterol, sy'n amlygu'r hyn a gyflawnwyd a sut y rheolir cyllid;
- **Adroddiadau Amlygu** – bydd y Bwrdd Partneriaeth Gofalwyr yn cynhyrchu'r adroddiadau hyn i'r Bwrdd Trawsnewid Integredig [BTI] bob deufis, a fydd yn cynnwys tynnu sylw at gyflawniadau allweddol, cynnydd yn erbyn cynlluniau a risgiau neu gamau gweithredu pwysig i'w huwch-gyfeirio;

- **Adroddiad Blynyddol Gofalwyr** – bydd y Bwrdd Partneriaeth Gofalwyr yn llunio adroddiad blynyddol ar ei berfformiad dros y flwyddyn ariannol flaenorol a fydd yn cynnwys nodi cynnydd o ran cyflawni'r strategaeth hon;
- **Adroddiad Cynnydd Cynllun Ardal Gorllewin Morgannwg** – llunnir adroddiad ar gynnydd yn erbyn y Cynllun Ardal ranbarthol bob chwarter i'r BPRh ei adolygu a chymeradwyo cynnydd. Bydd hyn yn cynnwys nodi cyflawniadau allweddol tuag at ein canlyniadau strategol o dan y Strategaeth Gofalwyr Ranbarthol.

# Arfarniad

Fel gydag unrhyw gynllun strategol, rydym am sicrhau'n barhaus fod y cynllun yn parhau'n briodol, yn unol ag anghenion gofalwyr ac yn parhau i gyfrannu at ein datganiadau cenhadaeth a'n gweledigaeth.

Y Fforwm Cyswllt Gofalwyr yw ein gwiriad cyntaf ein bod yn gwneud y pethau iawn yn y ffordd iawn. Drwy egwyddorion cydgynhyrchu, byddwn yn gweithio gydag aelodau'r fforwm i adnewyddu'r strategaeth yn rheolaidd yn ystod y cyfnod o bum mlynedd. Byddwn hefyd yn ceisio barn gofalwyr a'u cynrychiolwyr drwy'r fforwm ar elfennau penodol o'r strategaeth lle teimlwn fod angen cadarnhau mai'r camau gweithredu a gynlluniwyd yw'r camau cywir i ofalwyr.

Mae'r Bwrdd Partneriaeth Gofalwyr yn atebol am y Strategaeth Gofalwyr Rhanbarthol a'r Cynllun Gweithredu a ddatblygir ar gyfer pob blwyddyn adrodd. Aelodau'r grŵp hwn sy'n gyfrifol am sicrhau eu bod wedi adolygu cynnwys y strategaeth a chraffu arno.

Bydd gan y Bwrdd Trawsnewid Integredig (BTI) yr opsiwn o gynnal gwerthusiadau annibynnol o'r strategaeth ranbarthol. Gall hyn fod yn swyddogaeth a gyflawnir gan sefydliad allanol annibynnol, a gomisiynwyd gan y BTI ar ran y Bwrdd. Gall y lefel hon o sicrwydd fod yn ddefnyddiol iawn os oes unrhyw arwydd nad yw'r strategaeth bellach yn addas i'r diben.

# Cyllid

Bydd cyflawni'r camau gweithredu sydd eu hangen i gyflawni'r strategaeth hon yn dibynnu ar gyllid o wahanol ffynonellau. Llywodraeth Cymru yw'r prif gyllidwr ar gyfer y rhaglen drawsnewid strategol hon drwy'r Gronfa Gofal Integredig sy'n cynnwys dyraniad penodol i ariannu prosiectau sy'n cefnogi gofalwyr.

Fodd bynnag, bydd ffynonellau ariannu eraill sydd wedi'u cynllunio neu a ddaw i'r amlwg yn ystod cyfnod y strategaeth hon. Dylai cyllid cynaliadwy a dderbynnir gan bartneriaid statudol ac a fwriedir ar gyfer cefnogi anghenion gofalwyr gyd-fynd â'r strategaeth hon, fel y gallwn ystyried pob agwedd ar y cymorth a ddarperir i ofalwyr mewn ffordd gyson ar draws y rhanbarth.

Ein nod yw sicrhau bod ein rhaglenni trawsnewid yn cael eu 'bwydo gan gyllid' ac nid yn cael eu 'harwain gan gyllid'. Mae hyn yn golygu y byddwn yn defnyddio'r cyllid sydd ar gael i gyflawni'r blaenoriaethau ar gyfer gofalwyr yn ein rhanbarth (yn hytrach na defnyddio cyllid i wario arian yn unig, heb strategaeth. Felly, bydd ein dull comisiynu rhanbarthol yn cyd-fynd yn uniongyrchol â'r canlyniadau a ddiffinnir yn y strategaeth hon fel y gallwn sicrhau ein bod yn ariannu prosiectau a mentrau sy'n diwallu anghenion gofalwyr fel y'u diffinnir drwy'r strategaeth hon.

# Egwyddorion ffyrdd o weithio

Un rhaglen waith yn unig ar gyfer Gorllewin Morgannwg yw cyflawni'n strategaeth ranbarthol ar gyfer gofalwyr, a byddwn yn ymdrechu i sicrhau cysondeb yn ein dulliau o drawsnewid iechyd a gofal cymdeithasol i bobl ein cymunedau. Felly, byddwn yn gweithio tuag at cyfres gyffredin o egwyddorion ar gyfer rhoi ein strategaeth ar waith sy'n cynnwys:

- Hyrwyddo cydweithio ar draws y rhanbarth ac ar draws sectorau, sefydliadau a gwasanaethau;
- Sicrhau cyfathrebu agored a gonest ar bob lefel a chyda phob parti wrth i ni barhau ar ein taith strategol;

- Ymgorffori cydgynhyrchu yn ein gweithgareddau gweithredu strategol ac ar draws ein gwasanaethau a'n swyddogaethau;
- Rhoi sicrwydd annibynnol ein bod yn cymhwyso'r gwerthoedd a nodwyd gennym yn gyson, gan helpu partneriaid, darparwyr gwasanaethau a rhanddeiliaid eraill i ddeall a chroesawu'r gwerthoedd pwysig hyn;
- Nodi a chefnogi'r gwaith o gyflawni Gwerth Cymdeithasol yn y ffordd rydym yn comisiynu prosiectau a mentrau ac yn eu rhoi ar waith.

Yn bwysicaf oll, byddwn yn gweithio tuag at y gwerthoedd sy'n benodol i'r Strategaeth Gofalwyr Ranbarthol, fel y'u diffinnir yn Adran 1 uchod. Bydd y strategaeth hon yn llywio'r camau manwl a gymerwn gyda'n gilydd fel rhanbarth. Bydd hyn yn sicrhau bod hawliau ac anghenion gofalwyr wrth wraidd popeth a wnawn i wella iechyd a lles unigolion sy'n darparu gwasanaeth mor werthfawr yn ein cymdeithas.

# Atodiadau

## A – Tabl Camau Gweithredu

Bydd y camau gweithredu canlynol yn cefnogi'r gwaith o gymeradwyo, cyhoeddi a lansio'r Strategaeth Gofalwyr Ranbarthol a'i rhoi ar waith:

| Gweithgarwch | Cyfrifoldeb | Amserlen arfaethedig |
|---|---|---|
| Cymeradwyo'r Strategaeth Gofalwyr Ranbarthol | Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol | Ionawr 2021 |
| Creu fersiwn Hawdd ei Ddarllen o'r Strategaeth Gofalwyr Ranbarthol | Bwrdd Partneriaeth Gofalwyr | Chwefror 2021 |
| Sefydlu Fforwm Cyswllt Gofalwyr | Fforwm Cyswllt Gofalwyr | Chwefror 2021 |
| Lansio'r Strategaeth Gofalwyr Ranbarthol | Bwrdd Partneriaeth Gofalwyr | Mawrth 2021 |
| Datblygu dogfen cynllunio camau gweithredu i sbarduno'r gwaith o roi'r strategaeth ar waith | Bwrdd Partneriaeth Gofalwyr | Mawrth i Fai 2021 |
| Cydgynhyrchu prosesau ariannu, monitro a gwerthuso ar gyfer 2022/23 | Bwrdd Partneriaeth Gofalwyr | Mai i Orffennaf 2021 |
| Sefydlu fframwaith ar gyfer mapio gwasanaethau gofalwyr a strwythurau cefnogi | Bwrdd Partneriaeth Gofalwyr | Gorffennaf i Fedi 2021 |
| Hyrwyddo'r Strategaeth Gofalwyr Ranbarthol i ddylanwadu ar lwybrau gofal a chymorth ar draws partneriaid | Bwrdd Partneriaeth Gofalwyr. | Medi 2021 |
| Cydgynhyrchu "diwygio'r" Strategaeth Gofalwyr Ranbarthol | Fforwm Cyswllt Gofalwyr | Tachwedd 2021 |
| Cydgynhyrchu Siarter Gofalwyr | Fforwm Cyswllt Gofalwyr | Mai i Ragfyr 2021 |

# B – Blaenoriaethau Rhanbarthol

## Pobl hŷn

| | |
|---|---|
| **PH.B1** | Datblygu a chynnal amrywiaeth cynaliadwy o wasanaethau sy'n ateb y galw, gan alluogi unigolion i aros gartref wrth gynnal eu hannibyniaeth am gyhyd â phosib a derbyn cefnogaeth briodol ar adegau o angen. |
| **PH.B2** | Datblygu a darparu amrywiaeth o opsiynau llety yn y dyfodol i ateb y galw a galluogi pobl i aros mor annibynnol â phosib am gyhyd â phosib. |
| **PH.B3** | Datblygu cydnerthedd a chydlyniant cymunedol i fynd i'r afael ag unigedd cymdeithasol mewn ardaloedd lle mae pobl hŷn yn byw. |
| **PH.B4** | Datblygu'r model gorau posib ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl i bobl hŷn (gan gynnwys elfennau perthnasol o Strategaeth/Gynllun Dementia Cymru Gyfan). |

## Plant a Phobl Ifanc

| | |
|---|---|
| **PPI.B1** | Datblygu gwell amrywiaeth o wasanaethau i'r holl blant ag anawsterau emosiynol neu broblemau lles neu iechyd meddwl gan gynnwys trawsnewid ac un pwynt mynediad i wasanaethau. |
| **PPI.B2** | Datblygu trefniadau amlasiantaeth cadarn i blant ag anghenion cymhleth. |

## Iechyd Meddwl

| | |
|---|---|
| **IM.B1** | Dechrau rhoi'r model gorau posib cytunedig ar gyfer y Gwasanaethau Iechyd Meddwl i Oedolion ar waith, fel y'i hamlinellir yn Fframwaith Strategol Bae'r Gorllewin ar gyfer oedolion â phroblemau iechyd meddwl. |
| **IM.B2** | Sicrhau bod lleoliadau i bobl ag anghenion cymhleth yn effeithiol, yn briodol ac yn seiliedig ar ganlyniadau. |

## Anabledd Dysgu ac Awtistiaeth

| | |
|---|---|
| **AD.B1** | Datblygu modelau gofal sy'n canolbwyntio ar bobl ni waeth beth fo'u hoed i sicrhau atal ac ymyrryd yn gynnar drwy wasanaethau amlddisgyblaeth, drwy ailfodelu gwasanaethau o ofal mewn sefydliad i wasanaethau cymunedol. |

## Gofalwyr (Thema drawsbynciol)

| | |
|---|---|
| **GO.B1** | Sicrhau bod gwaith yn parhau i hyrwyddo cydnabod gofalwyr yn gynnar fel y gellir eu cyfeirio i wybodaeth a chefnogaeth mewn pryd. |
| **GO.B2** | Datblygu gwybodaeth, cyngor, cymorth a chefnogaeth i bob gofalwr a pharhau i'w darparu, gan eu galluogi i wneud dewisiadau gwybodus a chynnal eu hiechyd a'u lles eu hunain. |
| **GO.B3** | Cydgynhyrchu â'r holl ofalwyr yn unigol ac yn strategol fel y cydnabyddir eu cyfraniad ac y clywir eu lleisiau. |

# C – Mapio Ysgogwyr Strategol

Mae'r dogfennau strategol canlynol wedi llywio'r gwaith o ddatblygu'r Strategaeth Gofalwyr Ranbarthol:

| Blwyddyn | Teitl | Awdur |
|---|---|---|
| 2018 | Yn gryno – Cymru iachach: Ein Cynllun Iechyd a Gofal Cymdeithasol | Llywodraeth Cymru |
| 2017 | Ffyniant i Bawb: y strategaeth genedlaethol | Llywodraeth Cymru |
| 2015 | Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 | Llywodraeth Cymru |
| 2014 | Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 | Llywodraeth Cymru |
| 2019 | Gofalu am ein dyfodol: Ymchwiliad i effaith Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 mewn perthynas â gofalwyr. | Y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon |
| 2020 | Cyfres o sesiynau briffio Dilyn y Ddeddf | Gofalwyr Cymru |
| 2015 | Asesiad o Anghenion Poblogaeth Bae'r Gorllewin | Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Bae'r Gorllewin |
| 2020 | Ymgynghoriad ar Gynllun Gweithredu Cenedlaethol Gofalwyr | Llywodraeth Cymru |
| 2019 | Gwneud Cymru y lle gorau yn y byd i dyfu'n hŷn: Strategaeth y Comisiynydd 2019-22 | Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru |
| 2020 | Hapus, iach a diogel: Maniffesto ar gyfer plant a phobl ifanc Cymru 2021 | Comisiynydd Plant Cymru |
| 2020 | Maniffesto ar gyfer y Dyfodol | Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol |
| 2020 | Maniffesto ar gyfer Cymru Gwrth-Hiliol | Cynghrair Hil Cymru |

Er mwyn paratoi ar gyfer datblygu Strategaeth bum mlynedd Gofalwyr Ranbarthol Gorllewin Morgannwg, adolygwyd y dystiolaeth bresennol a roddwyd gan ofalwyr i bartneriaid a chafwyd adolygiad o ddeunyddiau darllen.

Gofynnwyd i aelodau'r Grŵp Datblygu Strategaeth rannu'r dystiolaeth bresennol a gasglwyd drwy ymgynghoriadau a gweithgareddau cydgynhyrchu yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Rhannodd aelodau'r grŵp hefyd ddogfennau gan sefydliadau gofalwyr perthnasol a phartneriaid eraill. Perfformiwyd ymchwil bwrdd gwaith hefyd i gasglu ffynonellau gwybodaeth ychwanegol a datblygwyd templed i goladu'r dystiolaeth. Rhestrwyd materion ac argymhellion cenedlaethol ar gyfer Llywodraeth Cymru o dan y tair blaenoriaeth genedlaethol ar gyfer gofalwyr. Rhestrwyd tystiolaeth i gefnogi'r themâu rhanbarthol yn unol â hynny a grwpiwyd themâu trawsbynciol a ddaeth i'r amlwg o'r deunydd darllen/tystiolaeth hefyd o dan golofnau ar wahân.

Ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, roedd 17 ffynhonnell wybodaeth wedi'u hadolygu. Dyma'r wybodaeth a'r safbwyntiau a gafwyd gan gwahanol fathau o ofalwyr ac amdanynt: Gofalwyr o bob oed a math (5), Gofalwyr Ifanc (4), Rhiant-ofalwyr (3), Gofalwyr Dementia (1), Pobl Hŷn/Gweithwyr (2), Gofalwyr Brodyr a Chwiorydd (1), Anhysbys (1).

**Cyfeiriadau**

| Cyf. | Blwyddyn | Teitl | Awdur |
|---|---|---|---|
| 1 | 2018 | Fforwm Rhiant-ofalwyr - Ymgynghori, dylunio a chynllunio | Dynamix |
| 2 | 2019 | Arolwg Asesiad Anghenion Gofalwyr 2019 | Fforwm Gofalwyr sy'n Rhieni Abertawe |
| 3 | 2017 | Digwyddiad Hawliau Gofalwyr | Cyngor Abertawe |
| 4 | 2017 | Dyfodol Cerdyn Argyfwng Gofalwyr Abertawe | Cyngor Abertawe |
| 5 | 2019 | 'Dementia - ydyn ni'n Gwneud Gwahaniaeth' Adroddiad Gwerthuso'r Gynhadledd Dementia Ranbarthol | Cyngor Abertawe |
| 6 | 2020 | Ymgynghoriad ar Ofalwyr Ifanc a gynhaliwyd yn ystod diwrnod Ymwybyddiaeth Gofalwyr Ifanc 2020 | Cyngor Abertawe |

| Cyf. | Blwyddyn | Teitl | Awdur |
|---|---|---|---|
| 7 | 2020 | "Dod yn ail drwy'r amser" Bywyd yn y cyfnod clo i frodyr a chwiorydd plant anabl | Sibs |
| 8 | 2020 | #LeftInLockdown - Profiadau rhiant-ofalwyr o'r cyfyngiadau symud | Partneriaeth Plant Anabl |
| 9 | 2020 | Gofalu y tu ôl i ddrysau caeedig - Teuluoedd anghofiedig yn yr achosion o Coronafeirws | Carers UK |
| 10 | 2020 | FY NYFODOL, FY NHEIMLADAU, FY NHEULU - Sut mae Coronafeirws yn effeithio ar ofalwyr ifanc ac oedolion ifanc sy'n ofalwyr, a'r hyn y maent am i chi ei wneud nesaf | Ymddiriedolaeth Gofalwyr |
| 11 | 2019 | Darpariaeth ar gyfer gofalwyr ifanc mewn ysgolion uwchradd, colegau addysg bellach ac unedau cyfeirio disgyblion ledled Cymru | ESTYN |
| 12 | 2020 | Gadael neb ar ôl | Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru |
| 13 | 2020 | Cefnogi gweithwyr hŷn - Pecyn cymorth i undebwyr llafur TUC Cymru | TUC Cymru |
| 14 | 2020 | Adroddiad Ymchwil Wythnos Gofalwyr 2020 - Y cynnydd yn nifer y gofalwyr di-dâl yn ystod yr achosion o Coronafeirws (COVID-19) | Gofalwyr |
| 15 | 2019 | Digwyddiad Dweud eich Dweud Gofalwyr CNPT | Anhysbys |
| 16 | 2020 | Gofalwyr ifanc yn trosglwyddo i oedolaeth | Sefydliad Joseph Rowntree |
| 17 | 2020 | Ymgysylltu â'r Cyhoedd - sgwrs ar gynnal ymagwedd ochelgar at iechyd a gofal | Comisiwn Bevan |

Mae tystiolaeth yn parhau i gael ei chasglu o ddogfennau, ymgynghoriadau a digwyddiadau cydgynhyrchu ynghylch gofalwyr ac maent wedi'u mapio ar draws y themâu a nodir yn y strategaeth hon.

# Ch – Rhestr Termau

| | |
|---|---|
| BAME | Pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig |
| BPG | Bwrdd Partneriaeth Gofalwyr |
| CGI | Y Gronfa Gofal Integredig |
| LGBT+ | Lesbiaidd, Hoyw, Deurywiol a Thrawsryweddol + (mae’r + yn dynodi cynnwys tueddfrydau rhywiol a hunaniaethau rhywedd eraill) |
| BPRh | Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol |
| BIPBA | Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg |
| Gwerth Cymdeithasol | Y gwerth y mae pobl yn ei roi ar y newidiadau y maent yn eu profi yn eu bywydau. |
| Y Ddeddf | Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles |
| TUC Cymru | Cyngres yr Undebau Llafur |

<u>Sylwer:</u> Drwy gydol y ddogfen hon, mae'r term "Ni" yn cynrychioli llais cyfunol ein Partneriaeth Ranbarthol, gan gynnwys cynrychiolwyr defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr sy'n chwarae rhan hanfodol wrth gydgynhyrchu strategaethau, cynlluniau a gweithgareddau Partneriaeth Ranbarthol Gorllewin Morgannwg. Mae'r ddogfen hon wedi'i chydgynhyrchu â chynrychiolwyr o bob parti a diolchwn iddynt i gyd am eu hamser a'u hymdrechion i ddatblygu'r strategaeth ranbarthol hon.